Cynghrair Niwrolegol Cymru
Wales Neurological Alliance

Adroddiad blynyddol a datganiad ariannol 2018
Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol

Nodau ac Amcanion

Nod
Gwella gwasanaethau ar gyfer pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau niwrolegol

Amcanion
1. Ymgysylltu â phobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau niwrolegol a gweithio mewn partneriaeth â hwy
2. Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol a'u heffaith ar unigolion a'u cymunedau
3. Rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am anghenion pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau niwrolegol, a dylanwadu arni.
4. Cynorthwyo a hybu gwaith ymchwil priodol.

Aelodaeth a Chyfarfodydd y grŵp:

Bydd y grŵp yn cynnwys Aelodau Cynulliad o dair plaid wleidyddol o leiaf a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chynrychiolwyr o bwyllgor gweithredol Cynghrair Niwrolegol Cymru. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ond anfonir gwahoddiadau penodol at sefydliadau sy'n aelodau o Gynghrair Niwrolegol Cymru neu sefydliadau neu unigolion eraill sydd â diddordeb mewn cyflyrau niwrolegol y bydd y cadeirydd a'r ysgrifennydd yn dewis eu gwahodd yn benodol.

Yr aelodau yng nghyfarfod agoriadol y grŵp yn y pumed Cynulliad yw:

Mark Isherwood AC, Ceidwadwyr Cymreig (Cadeirydd)
Dr Dai Lloyd AC, Plaid Cymru
Vikki Howells AC, Llafur Cymru
Lee Waters AC, Llafur Cymru
Huw Irranca-Davies AC, Llafur Cymru
Angela Burns AC, Ceidwadwyr Cymru
David Rees AC, Llafur Cymru

Lynne Hughes, Y Gymdeithas Sglerosis Ymledol
Ana Palazon, Parkinson's UK
Dave Maggs, Headway
David Murray, Ymddiriedolaeth Gwellhad i'r Clefyd Parkinson
Kevin Thomas / Emily Wooster, Cymdeithas MND

Ann Sivapatham, Epilepsy Action
Carol McCudden, Ataxia UK
John Meredith, y Gymdeithas Dystonia
Kate Steele, Shine

Mae cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol yn agored i'r cyhoedd ac anfonir gwahoddiadau i sefydliadau sy'n aelodau o Gynghrair Niwrolegol Cymru ac eraill sydd â diddordeb mewn cyflyrau niwrolegol.

Aelodau presennol Cynghrair Niwrolegol Cymru yw:

- Brain Injury Rehabilitation Trust
- British Polio Fellowship
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
- Ymddiriedolaeth Anaf i Ymennydd Plant
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Different Strokes
- Dystonia Society
- Epilepsy Action Cymru
- Epilepsi Wales
- Headway Wales
- Cymdeithas Clefyd Huntington
- Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
- Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru
- Muscular Dystrophy UK
- Y Ganolfan Niwrotherapi
- Parkinson's UK
- Shine Cymru
- Y Gymdeithas Strôc
- The Brain Tumour Charity
- Ymddiriedolaeth Gwellhad i'r Clefyd Parkinson
- Y Gynghrair Niwrolegol
- Cymdeithas Cymorth ME a CFS Cymru (WAMES)

<u>Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae’r grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol</u>

Nid oedd yw'r grŵp wedi cwrdd ag unrhyw lobïwyr proffesiynol. Gellir cael manylion am fudiadau gwirfoddol ac elusennol sy'n dod i'r cyfarfodydd yn adran 'Aelodaeth a Chyfarfodydd y grŵp' yr adroddiad.

Cyfarfodydd

Mawrth 2018

Cynlluniwyd cyfarfod ar gyfer 20 Mawrth 2018 i drafod gweithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant fferyllol er mwyn gwella gwasanaethau niwrolegol yng Nghymru. Yn anffodus bu'n rhaid i'r siaradwyr dynnu allan o'r cyfarfod heb fawr o rybudd felly cafodd y cyfarfod ei ganslo.

Gorffennaf 2018

Roedd hwn yn gyfarfod arbennig o'r Grŵp Trawsbleidiol a wahoddodd bobl sy'n byw gyda chyflyrau niwrolegol ledled Cymru i drafod eu profiadau.

Dywed Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol Cymru y dylai'r holl staff sy'n ymwneud â rheoli gofal pobl â chyflyrau niwrolegol fod â dealltwriaeth briodol o'r cyflwr a'i effaith ar yr unigolyn a'i deulu.

Mae angen yr egwyddorion sylfaenol hyn i sicrhau bod gan bobl â chyflyrau niwrolegol hyder bod pa bynnag wasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol y maent yn ei ddefnyddio yn deall eu cyflwr.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried y cwestiynau allweddol canlynol.

C1. Rhannwch eich profiadau lle cafodd eich cyflwr niwrolegol ei ddeall yn dda / yn wael a'r gwahaniaeth a wnaeth hyn i'ch gofal?
C2. Pa weithwyr proffesiynol y dylem flaenoriaethu yn eich barn chi?
C3 Beth yw'r pethau allweddol y mae angen iddynt eu deall am eich cyflwr niwrolegol neu gyflyrau niwrolegol yn gyffredinol?
C4. Beth yw'r dulliau gorau ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn eich barn chi?

Cynhyrchwyd crynodeb o'r ymatebion a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio camau nesaf prosiect Codi Ymwybyddiaeth Cynghrair Niwrolegol Cymru.

Clywodd y cyfarfod hefyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol.

Rhagfyr 2018

Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol adroddiad blynyddol 2017. Nid oedd wedi dod i gyfarfod ynghynt oherwydd bod cyfarfod mis Mawrth wedi’i ganslo a chafwyd cyfarfod arbennig ym mis Gorffennaf. Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol.

Etholwyd Mark Isherwood AC yn gadeirydd am dymor arall, ac enwebwyd Diane Gleeson, yn ei rôl fel Cydlynydd Cynghrair Niwrolegol Cymru, yn ysgrifennydd. Derbyniodd y ddau y swyddi am dymor arall.

Yna cafodd y cyfarfod adroddiad ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru ac arolwg profiadau pobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol.

I grynhoi, ymatebodd 415 o bobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol: sglerosis ymledol - 25.74%, clefyd Parkinson - 23.28%, dystonia - 16.19%, epilepsi - 5.39%,

clefyd niwronau motor - 3.68%, pobl sydd wedi cael niwed i’r ymennydd - 2.94%, atacsia - 2.94% , arall - 19.85%.

Roedd 22% o'r ymatebwyr wedi cael diagnosis am fwy na phum mlynedd a 49% am fwy na deng mlynedd.

Roedd 56% o'r ymatebwyr rhwng 36 a 64 oed, 30% yn 65 oed neu'n hŷn, 9% rhwng 18 a 35 a 4% rhwng 0 a 17.

Nid oedd 73% o'r ymatebwyr wedi cael cynnig asesiad ffurfiol nac wedi gofyn am un, sy’n dangos nad yw hawl pobl i gael asesiad ffurfiol yn cael ei hyrwyddo, neu nad yw pobl yn ymwybodol o'u hawliau.

Ni dderbyniodd 80% o'r ymatebwyr unrhyw wasanaethau gan gyngor lleol o ganlyniad i gynllun gofal, sy'n dangos nad yw cynllun gofal o reidrwydd yn arwain at gymorth gofal cymdeithasol.

Ni welodd 64% unrhyw wybodaeth a fyddai'n eu helpu gyda’u hangen am ofal neu gymorth cymdeithasol; a dim ond 37% a gafodd gyngor gan weithiwr proffesiynol a fyddai'n helpu gydag angen am ofal cymdeithasol;

Mae 46% o'r ymatebwyr wedi talu am gymorth ychwanegol gyda’u harian eu hunain sy'n gwbl annerbyniol pan ddylent gael hyn gan wasanaethau statudol.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored lle cafwyd amryw o enghreifftiau eraill lle nad oes gan bobl sy’n byw gyda chyflyrau niwrolegol mawr o wybodaeth am y Ddeddf. Consensws cyffredinol o'r cyfarfod oedd bod pobl sy'n byw gyda chyflwr niwrolegol yng Nghymru yn cael eu siomi gan y Ddeddf ac yn methu â manteisio ar wasanaethau a chymorth hanfodol.

Rhoddodd yr Athro Anne Rosser gyflwyniad aelod ar ran Cynghrair Niwrolegol Cymru ar Wasanaeth Clefyd Huntington de Cymru a gofynnodd i'r grŵp trawsbleidiol am help i symud yr argymhellion ymlaen.

Datganiad Ariannol

Telir am yr holl gostau gan Gynghrair Niwrolegol Cymru.

	Treuliau swyddfa ac arlwyo
Arlwyo 2018	£59.40
Cyfanswm	**£59.40**